

Addasu i newid yn yr hinsawdd

Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd 2020-2025



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Helô

Mae'n bosibl mai newid yn yr hinsawdd ydy'r her fwyaf i Gymru, ac i'r byd.

Mae rhywfaint o newid yn yr hinsawdd yn naturiol, a dylai ddigwydd dros gyfnodau hir iawn o amser. Ond mae'r pethau y mae pobl yn eu gwneud yn ei gyflymu. Mae newidiadau a fyddai fel rheol yn cymryd llawer o filoedd o flynyddoedd yn digwydd mewn degawdau.

Cyflymder y newid hwn sy'n achosi pethau fel cyfnodau o sychder, tanau gwyllt, llenni ia yn toddi, lefel y môr yn codi, llifogydd a stormydd y gaeaf.

i Mae'n bwysig deall bod yna wahaniaeth rhwng tywydd a hinsawdd.



Rhywbeth tymor byr ydy'r tywydd. Mae'n newid o ddydd i ddydd.



Rhywbeth tymor hir ydy'r hinsawdd. Mae'n ymwneud â thymreddau tymhorol, cyfartaleddau glaw a phatrymau gwynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae'n **rhaid i bawb weithredu nawr.**

Mae angen i ni baratoi a diogelu ein cymunedau ledled Cymru.

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthy ch chi am ein cynllun addasu i newid yn yr hinsawdd.

Mae a wnelo **addasu i newid yn yr hinsawdd** ag addasu i realiti newid yn yr hinsawdd a chymryd camau i reoli'r risgiau.



Er mwyn addasu, rydyn ni'n plannu coed fel bod eu gwreiddiau'n rhwymo'r pridd. Mae hyn yn helpu i arafu llifogydd ac yn atal tirlithriadau.

Mae a wnelo **lliniaru newid yn yr hinsawdd** â lleihau neu atal gweithgareddau a systemau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.



Er mwyn lliniaru'r effaith, rydyn ni'n plannu coed i amsugno CO2 yn yr aer. Mae gennyn ni gynllun lliniaru newid yn yr hinsawdd gwahanol: lyw.cymru/cynllun-cyflenwi-carbon-isel-taflen-ffeithiau

Mae'r cynllun hwn yn ymwneud ag:

- addasu i'r sefyllfa rydyn ni ynnddi o ran newid yn yr hinsawdd
- deall y risgiau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd
- gwneud newidiadau fel bod yr effaith yn llai.



Gwybod y risgiau

Mae adroddiadau am newid yn yr hinsawdd yn dweud y gallwn ni ddisgwyl:

- gaeafau gwlypach
- hafau cynhesach
- mwy o stormydd
- tywydd mwy eithafol
- lefelau'r môr yn codi.

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar beth y mae Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ein Gweledigaeth

Yn 2030, bydd Cymru'n wlad:

- sydd wedi paratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd
- sydd â'r adnoddau angenrheidiol
- sy'n deall y risgiau a'r heriau sydd i ddod
- sy'n gallu addasu a lleihau effaith newid yn yr hinsawdd.

Byddwn ni'n cyflawni'r weledigaeth hon trwy:

- **gynyddu ein gwybodaeth** am y risgiau, yr heriau ac effaith newid yn yr hinsawdd
- **cynyddu ein capasiti** trwy gydweithio fel bod ein cymunedau gwledig, trefol ac arfordirol yn gallu gwneud y newidiadau angenrheidiol
- **meithrin ein gallu i ymdopi â newid yn yr hinsawdd** trwy gamu i mewn yn gynnar, cymryd camau a helpu cymunedau i gael eu hysbryd yn ôl os bydd problemau wedi codi
- **ymateb i'r risgiau** trwy ddechrau â'r materion sydd o'r brys mwyaf a gweithredu nawr.





Rydyn ni eisiau diogelu cymunedau, adeiladau a seilwaith rhag llifogydd

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar rai cymunedau'n fwy na'i gilydd. Yn aml, mae'r effaith yn waeth ar y rhai tlotaf. Mae angen i ni gymryd camau i helpu'r cymunedau hyn.

Mae cymunedau eraill mewn mwy o risg o lifogydd ac erydiad oherwydd

eu lleoliad. Mae yna fwy na **245,000** o adeiladau yng Nghymru mewn risg o lifogydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli afonydd, llynnoedd a thraethlinau Cymru ac yn gweithio i helpu cymunedau. Ond wrth i lefel y môr godi mae'r risg i'r cymunedau hyn yn fwy.

i Ystyr **seilwaith** ydy rhwydweithiau trafndiaeth, rhwydweithiau cyfathrebu a chyflenwadau pŵer.

✓ Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

Mae gennyn ni gyfreithiau newydd sy'n golygu bod yn rhaid i bob cartref newydd fod â gwell systemau draenio.

Mae ein Rhaglen Cartrefi Cynnes yn helpu pobl i wneud eu cartrefi'n gynhesach ac i ddefnyddio ynni'n well.

Rydyn ni wedi gweithio gyda sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru i fanylu ar eu Cynlluniau Rheoli Traethlinau.

Rydyn ni wedi buddsoddi mwy na £54 miliwn y flwyddyn mewn rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.

🕒 Camau tymor byr

Byddwn ni:

- â 25,000 yn fwy o gartrefi sy'n arbed ynni erbyn 2021
- yn gofyn i bobl beth, yn eu barn nhw, ddylai gael ei gynnwys yn ein Cynllun Tlodi Tanwydd newydd i helpu pobl i fforddio cynhesu eu cartrefi
- yn dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio natur ac 'atebion sy'n seiliedig ar natur', fel coed, i addasu i lifogydd a risgiau eraill.

➡🕒 Camau tymor canolig

Byddwn ni:

- yn rhoi ein Cynllun Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd newydd ar waith
- yn rheoli risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol gyda'n Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- â systemau fel bod grwpiau arfordirol yn gallu adrodd ar y cynllun rheoli hwn.



Rydyn ni eisiau diogelu cyflenwadau dŵr cyhoeddus rhag sychder

Mae angen i ni gadw cyflenwadau dŵr yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys:

- mewn tywydd poeth pan mae lefelau dŵr yn gostwng
- mewn tywydd rhewllyd pan mae pibelli'n gallu byrstio
- dadflocio draeniau
- delio'n gyflym â dŵr yn gollwng
- helpu pawb i ddefnyddio llai o ddŵr.

i Mae'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) wedi gosod targed i gwmnïau dŵr ostwng nifer yr achosion o ddŵr yn gollwng o 15% erbyn 2025.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n chwarae rhan fawr yn hyn o beth. Maen nhw'n rheoli llawer o'n hadnoddau dŵr. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod yna ddigon o ddŵr i ddiwallu anghenion. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gofalu am ein dŵr a bod ganddyn nhw gynlluniau sychder ar waith.

✓ Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

Rydyn ni wedi cyhoeddi ein Strategaeth Ddŵr i Gymru. Ei nod ydy cadw cyflenwadau dŵr ar lefel dda am y 25 mlynedd nesaf.

Rydyn ni'n cefnogi ymgyrchoedd ynglŷn â'r pethau y gallwch chi, a'r pethau na allwch chi, eu fflysiu i lawr y toiled. Mae'r rhain yn cynnwys 'Stop Cyn Creu Bloc' Dŵr Cymru a 'Fine to Flush' Water UK.

🕒 Camau tymor byr

Byddwn ni:

- yn lansio ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr newydd i wneud yn siŵr bod cyflenwadau dŵr yn ddiogel ac ar y lefelau angenrheidiol
- yn ymchwilio i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gyflenwadau dŵr
- yn defnyddio'r ymchwil hon i gefnogi asesiad risg nesaf Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru
- yn gweithio gyda sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu cynllun gweithredu pum mlynedd i adfer ein mawndiroedd.

i Pridd trwm, tywyll a chyfoethog ydy mawn. Mae'n dal dŵr ac yn helpu i leihau carbon deuocsid.

➡🕒 Camau tymor canolig

Byddwn ni:

- yn cyhoeddi canllawiau newydd i gyd-fynd â'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr nesaf 2025
- yn defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i atal sychder. Mae hyn yn cynnwys adfer glaswelltir gorlifdiroedd.



Rydyn ni eisiau rheoli tir yn well a lleihau'r risgiau

Mae ffermio a choedwigaeth yn rhan o fywyd cymunedol ledled Cymru. Mae'r ffordd rydyn ni'n paratoi ac yn defnyddio pridd ar gyfer cynydau a magu anifeiliaid yn bwysig.

Mae yna lawer o newidiadau da yn digwydd ym myd ffermio a choedwigaeth i baratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Ond mae yna hefyd broblemau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gormod o blaladdwyr.

i Cemeigion ydy plaladdwyr sy'n cael eu defnyddio i ladd chwyn, trychfilod a phlâu eraill.

Mae plaladdwyr yn gallu gwneud niwed i'n hamgylchedd. Pan geir llifogydd, mae plaladdwyr niweidiol weithiau'n cael eu golchi i'r dŵr.

Pan mae plaladdwyr yn cael eu defnyddio'n rhy aml, maen nhw'n gallu niweidio'r pridd. Mae hyn yn gallu arwain at erydiad pridd.

Rydyn ni eisiau lleihau'r defnydd o blaladdwyr.

✓ Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

Rydyn ni wedi ariannu Dŵr Cymru i redeg y Prosiect PestSmart. Mae'n gweithio gyda ffermwyr, perchnogion tir a chymunedau ledled Cymru. Maen nhw'n codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi cyngor er mwyn lleihau'r defnydd o blaladdwyr.

🕒 Camau tymor byr

Byddwn ni:

- yn parhau i weithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol plaladdwyr
- yn lleihau'r defnydd o blaladdwyr.

➡🕒 Camau tymor canolig

Byddwn ni:

- yn hybu ffyrdd gwell, mwy amgylcheddol i ofalu am y tir
- yn gweithio i wella ansawdd pridd a dŵr
- yn lleihau'r defnydd o blaladdwyr.



Rydyn ni eisiau diogelu ein hecosystemau a'n busnesau amaethyddol

Rydyn ni eisiau helpu ein dinasoedd, trefi a phentrefi i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae ein cynlluniau i gynyddu gorchudd coed a choetiroedd yn rhan bwysig o hyn. Mae plannu coed:

- yn rhoi cysgod i bobl eistedd ynddo pan mae'r tymheredd yn codi
- yn gwella ansawdd yr aer
- yn lleihau erydiad ac yn amddiffyn priddoedd
- yn gallu arafu llifogydd
- yn cefnogi ein hecosystemau.

Mae yna lawer o gyfleoedd i blannu mwy o goed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys annog ffermwyr a pherchnogion tir eraill i blannu ardaloedd newydd o goetir.

i Ystyr ecosystem ydy planhigion, anifeiliaid, trychfilod a phethau byw eraill mewn ardal.

Mae newid yn yr hinsawdd yn risg wirioneddol i gymunedau sy'n dibynnu ar fusnesau ffermio a choedwigaeth. Mae'n risg i'n cyflenwad bwyd a nwyddau eraill y maen nhw'n eu cynhyrchu.

Rydyn ni'n edrych ar:

- y mathau o gnydau rydyn ni'n eu tyfu yng Nghymru
- nifer y cnydau rydyn ni'n eu tyfu
- sut y mae'n bosibl y bydd angen i'r rhain newid.

✓ Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

Rydyn ni wedi lansio ein cynllun Coetiroedd i Gymru. Mae hwn yn annog ffermwyr a pherchnogion tir i blannu mwy o goed.

Rydyn ni'n cefnogi datblygu mwy o goetiroedd a gwella sut y mae'r tir yn cael ei reoli trwy ein Rhaglen Glastir.

🕒 Camau tymor byr

Byddwn ni:

- yn dal ati i siarad â chymunedau ynglŷn ag addasu i newid yn yr hinsawdd a materion eraill trwy ein hymgyngghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir
- yn dal ati i archwilio sut y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar gnydau a'r hyn rydyn ni'n ei gynhyrchu trwy'r Rhaglen Gallu, Addasrwydd a Hinsawdd.

➡🕒 Camau tymor canolig

Byddwn ni:

- yn parhau â'n cynllun ar gyfer Coedwig Genedlaethol newydd yng Nghymru
- yn gwneud yn fawr o'r budd a ddaw yn sgil cael mwy o goed wrth addasu i'r hinsawdd
- yn sicrhau cynnydd o o leiaf 2000 hectar y flwyddyn mewn coetiroedd yng Nghymru, o 2020 i 2030.



Rydyn ni eisiau i bob un o'n cynlluniau gysylltu a chefnogi addasu i newid yn yr hinsawdd

Mae llawer o'n gwaith fel Llywodraeth Cymru hefyd yn cael effeithiau positif ar yr amgylchedd. Gyda'i gilydd, mae ein cynlluniau a'n polisiau'n helpu Cymru i addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'r system gynllunio fel bod yna seilwaith mwy gwyrdd yn ein dinasoedd a'n trefi.

i Mae seilwaith gwyrdd yn cynnwys mannau agored. Mannau fel parciau, meysydd chwarae, rhandiroedd, gerddi preifat, glaswelltiroedd, pyllau, coetir a mwy. Mae hefyd yn cynnwys coed y strydoedd a'r gerddi. Mae'n dda i lesiant pobl yn ogystal ag i'r hinsawdd.

✓ Camau sydd eisoes wedi'u cymryd

Rydyn ni wedi datblygu mwy o fannau gwyrdd trefol trwy ein Polisi Adnoddau Naturiol.

Mae gennyn ni grwpiau gwaith ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth sy'n cynyddu seilwaith gwyrdd trefol.

Gwnaethon ni gyhoeddi ein Polisi Cynllunio Cymru 10 sy'n manylu ar ein polisiau cynllunio a'i nod ydy cael seilwaith mwy gwyrdd.

🕒 Camau tymor byr

Byddwn ni:

- yn canolbwyntio ar y 'pethau bychain' sy'n helpu i greu mwy o fannau gwyrdd lleol, hawdd i'w defnyddio
- yn gwneud yn siŵr bod coed yn cael eu plannu yn yr ardaloedd o'r dinasoedd a'r trefi sydd angen hyn fwyaf
- yn cynnwys pobl yn ein cynlluniau i atal adeiladu tai mewn ardaloedd lle ceir risg llifogydd.

➡🕒 Camau tymor canolig

Byddwn ni:

- yn edrych ar ddatganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru i weld beth arall sydd angen i ni ei wneud
- yn gwneud yn siŵr bod Cyfoeth Naturiol Cymru'n adfer mawndiroedd
- yn cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i gynyddu twf economaidd tra'n bod wrthi'n delio â newid yn yr hinsawdd
- yn datblygu cyngor ar sut y gall adeiladau addasu i ddelio â newid yn yr hinsawdd.



Rydyn ni eisiau diogelu ein hanes a'n treftadaeth.

Mae yna lawer o drefi, adeiladau, cestyll, cofebion, parciau, gerddi a phethau eraill hanesyddol sy'n rhan o'n hanes a'n treftadaeth. Rhaid amddiffyn y rhain.

Mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu Grŵp Amgylchedd Hanesyddol. Yn ddiweddarach eleni, byddan nhw'n cyhoeddi eu Cynllun Addasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol a'r Newid yn yr Hinsawdd.

Y camau nesaf

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb ohonon ni. Wrth i ddata ac ymchwil newydd ynglŷn â newid yn yr hinsawdd ddod i'r fei, mae'n bosibl y bydd angen newid y camau rydyn ni'n eu cymryd.

Byddwn ni'n sefydlu grŵp cenedlaethol i wirio pa mor dda y mae'r cynllun hwn yn gweithio i ddiogelu cymunedau ledled Cymru.

Diolch am ddarllen ein cynllun

Os ydych chi eisiau darllen mwy am y cynllun hwn: [llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd](http://lyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd)

